

**Heddlu Dyfed-Powys**

**Prif Gwnstabl Dr Richard Lewis**

Mae dros ugain mlynedd wedi mynd heibio ers cyflwyno'r Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd (MAPPA) ac mae'r trefniadau hyn dal yn hanfodol ar gyfer hyrwyddo rhannu gwybodaeth a chydweithio effeithiol rhwng asiantaethau i reoli ein hunigolion mwyaf peryglus.

Fel Prif Gwnstabl, yr wyf wedi gosod blaenoriaethau mewn perthynas â mynd i'r afael â chyflenwi cyffuriau, cam-drin domestig, trais rhywiol a throseddau rhywiol difrifol i gyd-fynd â'r blaenoriaethau y mae'r CHTh wedi'u gosod yn ei Gynllun Heddlu a Throseddu. Er bod angen canolbwyntio ar anghenion y dioddefydd, cydnabyddir bod angen i'n hymchwiliadau ganolbwyntio ar y troseddwyr hefyd – i ystyried peryglon ehangach eu hymddygiad.

Mae trefniadau MAPPA yn darparu fframwaith ar gyfer rhannu gwybodaeth yn effeithiol rhwng asiantaethau a nodi achosion craidd a pheryglon ymddygiad troseddol, sy'n caniatáu i gynlluniau rheoli risg gael eu rhoi ar waith ar gyfer gwarchod ein cymunedau. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn tynnu sylw at y gwaith a wneir yn Nyfed-Powys a'r ffordd y mae pob asiantaeth yn cydweithio ar gyfer y diben hwn.

Mae Cynadleddau MAPPA wedi'u trefnu ar gyfer y flwyddyn i ddod. Edrychwn ymlaen at barhau i ddod â phobl at ei gilydd, gan roi cyfle i weithwyr proffesiynol weithredu dysgu, datblygu prosesau a chanolbwyntio ar ddarpariaeth adnoddau i gryfhau effeithiolrwydd ein trefniadau o ran diogelu ein cymunedau rhag troseddwyr.

# Ystadegau MAPPA

**Troseddwyr cymwys am MAPPA ar 31 Mawrth 2024**

| | Categori 1: Yn ddarostyngedig i ofynion hysbysu troseddwyr rhyw | Categori 2: Troseddwyr treisgar | Categori 3: Troseddwyr peryglus eraill | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Lefel 1 | 641 | 110 | - | 751 |
| Lefel 2 | 5 | 4 | 6 | 15 |
| Lefel 3 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfanswm | 646 | 114 | 6 | 766 |

**Troseddwyr cymwys am MAPPA yn Lefelau 2 a 3 yn ôl categori (cyfanswm blynyddol)**

| | Categori 1: Yn ddarostyngedig i ofynion hysbysu troseddwyr rhyw | Categori 2: Troseddwyr treisgar | Categori 3: Troseddwyr peryglus eraill | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Lefel 2 | 15 | 13 | 32 | 60 |
| Lefel 3 | 6 | 0 | 2 | 8 |
| Cyfanswm | 21 | 13 | 34 | 68 |

| | |
|---|---|
| Troseddwyr Categori 1 a gafodd rybudd neu euogfarn am dorri gofynion hysbysu | 22 |

| | |
|---|---|
| Troseddwyr Categori 1 sydd â'u hysbysiad gydol oes wedi'i ddiddymu ar gais | 5 |

**Gorchmynion cyfyngol ar gyfer troseddwyr Categori 1**

| | |
|---|---|
| Gorchymyn Atal Niwed Rhywiol | 58 |
| Gorchmynion Atal Niwed Rhywiol gyda chyfyngiadau teithio tramor | 0 |
| Gorchmynion Hysbysu | 2 |

| | |
|---|---|
| Nifer y bobl a ddaeth yn destun gofynion hysbysu troseddwyr rhyw ar ôl torri Gorchymyn Perygl Rhywiol | 0 |

**Troseddwyr Lefelau 2 a 3 a ddychwelwyd i'r ddalfa**

| Dychwelwyd i'r ddalfa am | Categori 1: Yn | Categori 2: Troseddwyr treisgar | Categori 3: Troseddwyr peryglus eraill | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| dorri amodau eu trwydded | ddarostyngedig i ofynion hysbysu | | | |
| Lefel 2 | 8 | 9 | 5 | 22 |
| Lefel 3 | 2 | 0 | 2 | 4 |
| Cyfanswm | 10 | 9 | 7 | 26 |

| Torri Gorchymyn Atal Niwed Rhywiol | |
|---|---|
| Lefel 2 | 0 |
| Lefel 3 | 0 |
| Cyfanswm | 0 |

| Cyfanswm nifer yr unigolion sy’n ddarostyngedig i ofynion hysbysu troseddwyr rhyw fesul 100,000 o’r boblogaeth | 138 |
|---|---|

Mae’r ffigur hwn wedi’i gyfrifo gan ddefnyddio’r amcangyfrifon poblogaeth canol 2023, a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar 15 Gorffennaf 2024, ac eithrio plant dan ddeg oed.

Yn gyson â chyhoeddiadau blaenorol hyd at 2021/22, mae’r ffigwr hwn yn seiliedig ar ganol blwyddyn y cyfnod cyhoeddi. Ar gyfer cyhoeddiad 2022/23, roedd y ffigwr poblogaeth yn seiliedig ar ganol 2021 yn hytrach na chanol 2022 oherwydd y newid i’r amserlen cyhoeddi gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. O’r herwydd, efallai na fydd modd cymharu’r ffigwr presennol yn uniongyrchol â ffigwr llynedd.

# Tudalen leol

**Datganiad ar y Cyd gan Fwrdd Rheoli Strategol MAPPA Dyfed-Powys:**

**Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF ac Arweinwyr yr Heddlu:**
**Y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro, Gary Phillips, Heddlu Dyfed-Powys**
**Christine Harley, Pennaeth Uned Cyflenwi Gwasanaeth Prawf Dyfed-Powys**
**Chris Simpson, Llywodraethwr, CEF Abertawe**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi blwyddyn arall o gynnydd a llwyddiant sylweddol. Mae ein hymagwedd amlasiantaeth yn parhau'n gonglfaen ein llwyddiant, gan ein galluogi i fynd i'r afael â'r heriau cymhleth a gyflwynir gan reoli unigolion perygl uwch. Mae pawb ohonom yn cydnabod y gall effaith trosedd ar ddioddefydd fod yn ddifrifol, gan bara'n hir ac effeithio ar holl agweddau ei fywyd, a gyda hyn mewn cof, gallwn reoli peryglon yn holistig, gan ddefnyddio'r pwerau cyfreithlon a'r arbenigedd y gall bob asiantaeth gynnig yn llawn.

Mae'r galw wedi parhau'n uchel eleni, fodd bynnag, braf oedd nodi sefydlogrwydd yn nifer y cyfeiriadau ar gyfer rheolaeth o dan MAPPA a rheolaeth o dan MAPPA Lefel 2.

Dyma rai o'r datblygiadau allweddol sydd wedi digwydd yn lleol yn 2023-24:

- Adolygu ansawdd llywodraethu'r Bwrdd Rheoli Strategol drwy gwblhau arf hunan-asesu'r Bwrdd Rheoli Strategol (a ddatblygwyd gan y Tîm MAPPA Cenedlaethol) gan ganiatáu ffocws ar feysydd o ddatblygiad lleol a nodwyd.
- Adolygu adnoddau lleol er mwyn sicrhau bod trefniadau MAPPA yn effeithiol ac effeithlon, gan ddatblygu prosesau newydd neu adolygu prosesau sy'n bodoli eisoes lle mae angen.
- Dadansoddi cyfeiriadau, ac achosion a reolir yn MAPPA L2/3 i nodi tueddiadau carfan.
- Ym mis Ionawr 2024, cynhaliwyd cyfarfod ychwanegol o'r Bwrdd Rheoli Strategol a oedd yn canolbwyntio ar ddysgu o adolygiadau achos.
- Cyfarfodydd cadeiryddion MAPPA L2/3 chwarterol parhaus ar gyfer cymorth, rhannu arfer gorau, hyrwyddo cysondeb, a nodi unrhyw anghenion hyfforddi.

Gan edrych ymlaen, cydnabyddwn y bydd yr heriau yr ydym yn eu hwynebu'n parhau i dyfu mewn cymhlethdod. Fodd bynnag, byddwn ni'n parhau i arwain y ffordd o ran meithrin cymunedau mwy diogel drwy arloesedd, cydweithio, ac ymrwymiad cadarn i ddiogelwch cyhoeddus. Yr ydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd hyfforddi a datblygu ein staff, ac rydyn ni wedi rhoi cynlluniau ar waith i gynnal dwy gynhadledd amlasiantaeth, a fydd yn galluogi asiantaethau ac ymarferwyr i ddod at ei gilydd wyneb yn wyneb a derbyn mewnbwn gwerthfawr a chlywed arfer gorau gan sefydliadau gwahanol.

Yr ydym hefyd yn gobeithio y byddwn mewn sefyllfa yn ystod y flwyddyn i ddod i gefnogi recriwtio ar gyfer penodi Ymgynghorwyr Lleyg MAPPA i'r ardal.

**Y Ditectif Uwch-arolygydd Dros Dro Wayne Bevan, Heddlu Dyfed-Powys:**

Mae'r Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd yn Nyfed-Powys yn gwasanaethu fel fframwaith beirniadol sy'n dod ag asiantaethau o bob rhan o gyfiawnder troseddol, gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, tai a thrydydd sectorau i reoli a monitro unigolion sy'n cyflwyno'r perygl mwyaf i'n cyhoedd. Mae'r ymdrechion ar y cyd hyn yn chwarae rôl hollbwysig o ran sicrhau diogelwch aelodau mwyaf bregus cymdeithas. Mae cryfder y perthnasau ledled Dyfed-Powys yn gorwedd gyda'i ymagwedd gydweithredol ar draws yr asiantaethau hyn wedi'i gefnogi gan y cydlynydd canolog a leolir ar y cyd. Yr ydym yn parhau i sicrhau ein cynrychiolaeth ym mhob cyfarfod ac is-

